

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Anghenion Gofalwyr The Needs of Carers

**Q12 Sandy Mewies:** What is the Welsh Assembly Government doing to support the needs of carers in Wales? OAQ0695(FM)

**The First Minister:** We continue to work with our carers' strategy review panel to implement our carers strategy and to encourage statutory authorities to develop local services to meet carers' assessed needs. We help fund carers' voluntary organisations, and the Assembly Government remains committed to leading by example on carer-friendly employment policies.

**C12 Sandy Mewies:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi anghenion gofalwyr yng Nghymru? OAQ0695(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i gydweithio â'r panel sy'n adolygu ein strategaeth ar gyfer gofalwyr er mwyn gweithredu ein strategaeth ac annog awdurdodau statudol i ddatblygu gwasanaethau lleol i ateb anghenion asesiedig gofalwyr. Yr ydym yn helpu i ariannu sefydliadau gwirfoddol i ofalwyr ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i arwain drwy esiampl ar bolisiau cyflogaeth sy'n ystyriol o ofalwyr.

#### Swyddfeydd Cyllid a Thollau EM The Offices of HM Customs and Excise

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y Deyrnas Gyfunol parthed yr ad-drefnu o fewn swyddfeydd Cyllid a Thollau EM? OAQ0690(FM)

**Y Prif Weinidog:** Fel yr eglurais wrth eich cydbleidiwr, Alun Ffred Jones, yn ystod y sesiwn cwestiynau ar 5 Gorffennaf, yr wyf yn trafod y mater hwn a materion eraill sy'n effeithio ar Gymru yn fy nghyfarfodydd rheolaidd â Peter Hain.

**Q13 Rhodri Glyn Thomas:** What recent discussions has the First Minister held with UK Government Ministers about reorganisation within the offices of HM Customs and Excise? OAQ0690(FM)

**The First Minister:** As I explained to your party colleague, Alun Ffred Jones, during questions on 5 July, I discuss this and other issues affecting Wales in my regular meetings with Peter Hain.

#### Deddfwriaeth Drwyddedu Newydd New Licensing Legislation

**Q14 William Graham:** Will the First Minister outline discussions he has held to

**C14 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r trafodaethau a

ensure provisions within the new licensing legislation to differentiate between a public house, a night club and the requirements of a village hall? OAQ0697(FM)

**The First Minister:** I have not had any such discussions because alcohol and entertainment licensing is not devolved.

gynhaliodd i sicrhau darpariaethau o fewn y ddeddfwriaeth drwyddedu newydd i wahaniaethu rhwng tafarn, clwb nos a gofynion neuadd bentref? OAQ0697(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath gan nad yw trwyddedu alcohol ac adloniant yn fater wedi'i ddatganoli.

### **Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales**

**Q15 Jeff Cuthbert:** Will the First Minister make a statement on the achievements of Health Challenge Wales? OAQ0692(FM)

**The First Minister:** Health Challenge Wales is capturing the imagination of organisations, the media and people across Wales, 27 per cent of whom are now aware of it. This is helping to focus all our efforts on a common goal; that is to prevent ill health from occurring in the first place.

**C15 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyflawniadau Her Iechyd Cymru? OAQ0692(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Her Iechyd Cymru yn dal dychymyg sefydliadau, y cyfryngau a phobl ledled Cymru, gyda 27 y cant ohonynt bellach yn gwybod am yr ymgyrch. Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar un amcan cyffredin; sef atal afiechyd rhag taro yn y lle cyntaf.